**GORCHYMYN CAU A DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS**
**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990, ADRAN 257**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**(CAU LLWYBR TROED 58 MAESTEG A**
**DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 58 MAESTEG)**
**GORCHYMYN CAU A DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 3, 2025**

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “yr awdurdod”), o dan Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, oherwydd ei fod yn fodlon ei bod yn angenrheidiol cau a dargyfeirio’r llwybr troed y mae’r Gorchymyn yn ymwneud ag ef er mwyn galluogi datblygiad i gael ei gwblhau yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sef:-

Codi adeilad newydd ar gyfer hyfforddi a gofod swyddfa ynghyd â gwaith seilwaith mynediad, parcio, tirlunio a draenio ar dir i’r dwyrain o Siderise Insulation Ltd, Ystad Ddiwydiannol Forge, Maesteg CF34 0AH. (P/22/71/FUL).

**TRWY’R GORCHYMYN HWN:**

1. Bydd y llwybr troed dros y tir a ddangosir gan linell ddu amlwg a labelir C – D – E ar y map ynghlwm ac a ddisgrifir yn Rhan 1 o’r Atodlen yma, yn cael ei gau ar ôl 28 diwrnod o ddyddiad cadarnhau’r Gorchymyn hwn.

2. Bydd y llwybr troed dros y tir a ddangosir gan linell ddu amlwg a labelir A – B ar y map ynghlwm ac a ddisgrifir yn Rhan 2 o’r Atodlen yma, yn cael ei ddargyfeirio ar ôl 28 diwrnod o ddyddiad cadarnhau’r Gorchymyn hwn.

3. Ar ddiwedd y 28 diwrnod o ddyddiad cadarnhau’r Gorchymyn hwn, bydd yna lwybr troed cyhoeddus dros y tir a ddangosir gan linell doredig amlwg a labelir A–G ar y map ynghlwm ac a ddisgrifir yn Rhan 3 o’r Atodlen.

4. Mae’n ofynnol, drwy hyn, i’r sawl sy’n ceisio’r Gorchymyn dalu’r costau sy’n gysylltiedig â gwneud y Gorchymyn hwn.

5. Os oes – yn union cyn y dyddiad y caiff y llwybr troed ei gau a’i ddargyfeirio – offer oddi tano, ynddo, drosto, ar ei hyd neu ar ei draws, sy’n eiddo i ymgymerwyr statudol at ddiben cyflawni eu hymgymeriad, bydd yr ymgymerwyr yn parhau i gael yr un hawliau mewn perthynas â’r offer ag oedd ganddynt bryd hynny.

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR BWRDEISTREF** ar y ddogfen )
ar y diwrnod o 2025 )
ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig

**ATODLEN**
**RHAN 1**
**DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR PRESENNOL SYDD I'W GAU**

Y rhan honno o Lwybr Troed 58 Maesteg sy'n dechrau ym Mhwynt C (Cyfeirnod Grid: SS 8493 9169) ac sy'n parhau'n gyffredinol tua'r gogledd am 32 metr i Bwynt D (Cyfeirnod Grid: SS 8494 9172), yna'n parhau tua'r dwyrain / gogledd-ddwyrain am 70 metr i Bwynt E (Cyfeirnod Grid: SS 8500 9175) lle mae'n dod i ben.

Hyd y llwybr yw 102 metr. Mae'r lled yn anhysbys.

**RHAN 2**
**DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR PRESENNOL I'W DDARGYFEIRIO**


Y rhan honno o Lwybr Troed 58 Maesteg sy'n dechrau ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid: SS 8495 9184) ac sy'n parhau tua'r de / de-orllewin am oddeutu 51 metr i Bwynt B (Cyfeirnod Grid: SS 8494 9179) lle mae'n dod i ben.


Hyd y llwybr yw 51 metr. Mae'r lled yn anhysbys.

**RHAN 3**
**DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR AMGEN**

Llwybr sy'n dechrau ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid: SS 8495 9184) ac sy'n parhau tua'r de-orllewin am 8 metr i Bwynt F (Cyfeirnod Grid: SS 8495 9184), yna'n parhau'n gyffredinol ar hyd llwybr sydd eisoes wedi'i adeiladu tua'r de / de-ddwyrain am tua 130 metr i gwrdd â'r llwybr troed mabwysiedig ym Mhwynt G (Cyfeirnod Grid: SS 8500 9172).

Hyd y llwybr yw 138 metr a'i led yw 3 metr. Llwybr tarmac 3 metr o led yw'r arwyneb sy'n dechrau wrth ei gyffordd â'r Stryd Fawr am 128 metr ac yna lwybr tarmac 2.5 metr o led gyda llain ymyl 0.25 metr ar y naill ochr a'r llall am 10 metr hyd at ei derfyn gyda'r llwybr troed mabwysiedig.




CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR
(CAU LLWYBR TROED 58 MAESTEG A GWYRO
LLWYBR TROED 58 MAESTEG)
GORCHMYN CAU A GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS RIF 3
2025

08/09/2025

1:1250

G
Gn Dn
D

Gwyro'r briffordd bresennol (A-B)

Diddymu'r briffordd bresennol (C-D-E)

Llwybr arfaethedig (A-F-G)

Llwybr troed cyhoeddus

**Janine Nightingale**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol**
**Cymunedau**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol**
**Pen-y-Bont ar Ogwr,**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Stryd yr Angel,**
**Pen-y-bont ar Ogwr,**
**CF31 4WB**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

**©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2025. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000851951. Mae defnydd o'r data hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau.**

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR
# (CAU LLWYBR TROED 58 MAESTEG A DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 58 MAESTEG)
# GORCHYMYN CAU A DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 3, 2025

K Watson,
Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio,
Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol
Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,
Swyddfeydd Dinesig,
Stryd yr Angel,
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB.

Cyfeirnod Cyfreithiol: HIG001- 1139